Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Caru Evans**

**Llandysul**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:*
*psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Medi 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Arolygiad â ffocws penodol oedd hwn ac, ar yr achlysur hwn, nid ydym wedi ystyried pob thema yn llawn.

Mae'r plant wedi setlo ac yn hapus a chânt gyfleoedd i wneud dewisiadau. Mae gan y plant gydberthynas gadarn â'r gwarchodwr plant. Ar y cyfan, maent yn rhyngweithio mewn ffordd braf â'i gilydd ac yn cydweithredu'n dda, gan gymryd eu tro a rhannu. Maent yn meithrin eu hannibyniaeth ac yn mwynhau dysgu drwy chwarae.

Mae'r gwarchodwr plant wedi cymryd camau i adolygu rhai o'i pholisïau, ei gweithdrefnau, a'i dogfennaeth i gadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Mae asesiadau risg ar waith, ac mae'n cymryd camau i reoli unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg. Ar y cyfan, mae'n rhoi arferion rheoli heintiau boddhaol ar waith ac yn hyrwyddo arferion hylendid â'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant wedi rhoi rhai newidiadau cadarnhaol ar waith i sicrhau ei bod yn cynnig amgylchedd diogel i'r plant. Nid yw bob amser yn cynnal cofnodion presenoldeb cywir o ymwelwyr.

Yn gyffredinol, mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn gwella. Cafodd argymhellion eu rhoi ar waith a chafodd rhai meysydd i'w gwella eu datrys yn dilyn yr ymweliad diwethaf, ond mae meysydd i'w gwella eraill y mae angen gweithredu arnynt o hyd. Ar y cyfan, mae cofnodion ar waith ar gyfer y plant a'r staff. Mae arfarniadau staff ar waith, ac mae'r gwarchodwr plant wedi dechrau'r broses o oruchwylio'r staff. Cafodd y polisïau a'r gweithdrefnau eu hadolygu yn dilyn yr ymweliad.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Maent yn cael llawer o ddewisiadau, fel beth yr hoffent chwarae ag ef, ble yr hoffent dreulio eu hamser a ph'un a ydynt am wneud pethau yn annibynnol neu gael help. Mae'r plant yn symud yn rhydd o gwmpas yr ystafell chwarae benodol, gan ddewis o blith yr amrywiaeth o deganau sydd ar gael sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn hyderus y caiff eu dewisiadau eu gwerthfawrogi ac maent yn fodlon mynegi eu hunain.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn y lleoliad ac maent yn meithrin cydberthynas gadarnhaol â'r gwarchodwr plant a'r plant eraill yn gyflym. Er enghraifft, mae'r plant yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd yn y gegin chwarae rôl ac yn mwynhau sgwrsio â'i gilydd ac â'r gwarchodwr plant yn ystod amser cinio.Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cynnes a chariadus â'r gwarchodwr plant. Er enghraifft, eisteddodd plentyn yn hapus wrth ymyl y gwarchodwr plant ar y soffa gan symud yn agosach ati i gael maldod pan oedd wedi blino.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gadarnhaol ar y cyfan. Maent yn cydweithio ac yn rheoli eu hymddygiad yn briodol. Er enghraifft, penderfynodd dau blentyn rannu'r cyfarpar chwarae meddal gan gymryd eu tro wrth lithro i lawr y siapiau. Yn ystod amser cinio, gwnaethant sgwrsio'n hyderus, gan drafod eu poteli dŵr.

Mae'r plant yn hapus wrth chwarae a dysgu. Maent yn cymryd rhan yn eu gweithgareddau eu hunain neu gyda ffrind. Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda, gan ddangos diddordeb yn yr hyn y maent wedi dewis ei wneud am gyfnodau priodol o amser. Er enghraifft, gwelsom un plentyn yn canolbwyntio wrth gasglu eitemau o ddillad i'r ddol a gofyn am gymorth i wisgo'r ddol. Roedd yn ymateb yn dda i anogaeth gan y gwarchodwr plant wrth helpu i wisgo'r ddol.

Mae'r plant yn annibynnol. Gallant gael gafael ar adnoddau yn annibynnol ac maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Caiff annibyniaeth y plant ei hyrwyddo'n gyson. Er enghraifft, mae'r gwarchodwr plant yn helpu'r plant i wneud eu brechdanau eu hunain yn ystod amser cinio yn lle gwneud y brechdanau iddynt. Mae'r plant yn mwynhau tacluso adnoddau yn annibynnol ac maent yn eu gosod yn hyderus yn y bocsys storio cywir. O ganlyniad, mae'r plant yn dangos balchder yn eu sgiliau annibynnol.Mae hyn wedi gwella yn dilyn yr ymweliad arolygu blaenorol.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Yn ystod yr ymweliad, gwelsom fod gan y gwarchodwr plant dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig gyfredol sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n cael gofal. Fodd bynnag, nid oedd gan y cynorthwyydd dystysgrif. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod hyfforddiant ffurfiol wedi'i drefnu. Nodir y maes hwn fel maes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu ar unwaith. Yn dilyn yr ymweliad, darparwyd tystysgrif i ni yn dangos bod hyfforddiant ar-lein wedi cael ei gwblhau yn y cyfamser tra'n aros am hyfforddiant cymorth cyntaf ffurfiol wyneb yn wyneb. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif diogelu a thystysgrif hylendid bwyd dilys. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod asesiadau risg ar waith ac mae'r asesiadau risg hyn yn nodi peryglon posibl i'r plant yng nghartref y gwarchodwr plant ac yn ystod teithiau. Mae'n sicrhau bod damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cofnodi, ond nid yw'r rhieni yn llofnodi i ddangos eu bod wedi cael gwybod amdanynt. Mae hyn yn argymhelliad parhaus a nodwyd yn ystod yr ymweliad arolygu blaenorol.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu bwyd i'r plant ac yn annog y plant i ddilyn arferion hylendid da. Er enghraifft, mae'r gwarchodwr plant a'r plant yn golchi eu dwylo ar adegau priodol, fel cyn bwyta. Mae'n sychu'r byrddau cyn gweini bwyd. Mae'r plant yn eistedd gyda'i gilydd yn ystod amser bwyd, sy'n cynnig cyfleoedd i hyrwyddo sgiliau cymdeithasol y plant ac yn annog y plant i sgwrsio. Gwnaethom drafod hylendid o fewn y weithdrefn newid cewynnau â'r gwarchodwr plant gan nad yw'r gweithdrefnau yn unol â'r canllawiau cyfredol ar reoli heintiau. Mae hyn yn argymhelliad parhaus a nodwyd yn ystod yr ymweliad arolygu blaenorol.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo amgylchedd dewis rhydd i'r plant. Nid oes unrhyw broses gynllunio ffurfiol ar waith ar gyfer gweithgareddau ac nid yw'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod ysgrifenedig o ddatblygiad y plant. Mae hyn yn argymhelliad parhaus a nodwyd yn ystod yr ymweliad arolygu blaenorol. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod wrthi'n dechrau defnyddio ap i gofnodi datblygiad y plant.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar, ac mae cynllun yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i wneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw. Mae'r ardal awyr agored yn fawr ac yn cynnwys tŷ chwarae a theganau reidio er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau corfforol y plant.

Mae gan y gwarchodwr plant fesurau boddhaol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y plant. Mae'n sicrhau bod pob allanfa wedi'i chloi ag allweddi sydd ar gael i'r oedolion. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod ysgrifenedig o bron pob ymwelydd sy'n dod i'r lleoliad, ond nid yw'r cofnod bob amser yn nodi pob ymwelydd yn gywir. Mae gan y gwarchodwr plant asesiadau risg ar gyfer yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau na all y plant gael mynediad i'r gegin. Mae wedi rhoi'r argymhellion a wnaed yn ystod yr ymweliad arolygu blaenorol mewn perthynas â diogelwch yr amgylchedd ar waith.

.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn ddigonol. Mae'n awyddus i wella ansawdd y gofal a ddarperir ganddi. Mae'r gwarchodwr plant yn parhau i ymdrin â'r meysydd i'w gwella a'r argymhellion. Yn dilyn yr ymweliad, diweddarwyd y datganiad o ddiben ac mae'n adlewyrchu'r gwasanaeth a gynigir yn gywir, gan alluogi rhieni i wneud dewis ar sail gwybodaeth. Mae amrywiaeth ddigonol o bolisïau, gweithdrefnau a dogfennaeth ar waith gan y gwarchodwr plant i'w helpu i reoli'r lleoliad.

Mae'r gwarchodwr plant wedi gwneud rhai gwelliannau i drefniadau arwain a rheoli'r lleoliad. Mae wedi gwneud gwelliannau o ran rheoli'r staff. Ers yr arolygiad diwethaf, cynhaliodd arfarniadau ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer ei chynorthwyydd. Ar ddiwrnod yr ymweliad, nid oedd unrhyw gofnodion ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer sesiynau goruchwylio. Fodd bynnag, yn dilyn yr ymweliad, cawsom dystiolaeth o gofnod ysgrifenedig ar gyfer sesiynau goruchwylio staff. Mae gan y gwarchodwr plant ffeil staff sy'n cynnwys tystiolaeth i ddangos bod y cynorthwyydd yn addas. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd dogfennaeth ar goll o'r ffeil staff, ac roedd hwn yn fater parhaus a nodwyd yn ystod yr ymweliad arolygu blaenorol. Yn dilyn yr ymweliad arolygu hwn, rydym wedi cael tystiolaeth o'r ddogfennaeth a oedd ar goll gan gynnwys prawf adnabod, ffotograff diweddar, CV, datganiad meddygol o iechyd a thystiolaeth o hyfforddiant ar ddiogelu. Felly nid yw hwn bellach yn faes i'w wella.

Nid yw'r gwarchodwr plant bob amser yn cynnal cymarebau priodol ac nid yw bob amser yn cofnodi presenoldeb y plant a'r staff yn gywir. O ganlyniad, nodir y maes hwn fel maes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r gwarchodwr plant weithredu ar unwaith mewn perthynas â'r mater. Yn ystod yr ymweliad, nid oedd y cofnodion yn dangos yn glir pwy oedd yn gofalu am y plant ar bob adeg, er enghraifft wrth fynd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Yn dilyn yr ymweliad, mae'r gwarchodwr plant wedi rhoi taflen cofnodi ddyddiol ar waith sy'n dangos pwy sy'n gofalu am y plant ar bob adeg. Yn ystod yr ymweliad arolygu, roedd y gwarchodwr plant yn gweithio ar ei phen ei hun oherwydd niferoedd isel. Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn goruchwylio'r plant yn briodol, ond roedd cyfnodau o amser lle roedd y plant yn yr ystafell chwarae heb oedolyn i'w goruchwylio. Nodir y maes hwn fel maes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu ar unwaith.

Mae'r gwarchodwr plant yn casglu gwybodaeth gan y rhieni a'r gofalwyr am y plant, cyn iddynt ddechrau defnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd wedi cael caniatâd mewn perthynas â phob plentyn ar gyfer triniaeth feddygol frys, ac nid oedd wedi cael caniatâd mewn perthynas â phob plentyn ar gyfer pethau eraill gan gynnwys ffotograffau, teithiau, teithio yng nghar y gwarchodwr plant ac ati. Mae'r gwarchodwr plant yn rhannu gwybodaeth

â'r rhieni ar lafar pan fyddant yn casglu eu plant. Mae'n bwriadu dechrau defnyddio ap er mwyn rhoi gwybod i'r rhieni am weithgareddau dyddiol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 24 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad yw wedi sicrhau bod o leiaf un oedolyn sy'n gofalu am y plant wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf dilys. | Newydd |
| 30 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad oedd y cofnodion a gyflwynwyd ar gyfer y cofrestrau dyddiol yn adlewyrchiad cywir o bwy a oedd yn gofalu am y plant. Nid yw darparwr y gwasanaeth yn cadw cofnod dyddiol o bwy sy'n gofalu am y plant ar bob adeg, er enghraifft wrth fynd yn ôl ac ymlaen o'r ysgol a phan fydd y cynorthwyydd yn bresennol. | Newydd |
| 20 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio bob amser. | Newydd |
| 29 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad yw wedi cynnig cyfleoedd goruchwylio ac arfarnu i'r cynorthwywyr. | Heb Gyflawni |
| 28 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad oedd ffeiliau staff a oedd yn dangos tystiolaeth o addasrwydd ar gael ar gyfer pob cynorthwyydd. | Cyflawnwyd |
| 15 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad oedd y datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod caniatâd ysgrifenedig ar gael ar gyfer triniaeth feddygol frys. |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod y rhieni/gofalwyr yn llofnodi pob cofnod ar gyfer damweiniau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes. |

| | |
|---|---|
| Safon 15 - Cymarebau staffio | Sicrhau bod y gymhareb rhwng yr oedolion a'r plant yn cael ei chynnal bob amser. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod gweithgareddau yn cael eu cynllunio i'r plant a bod asesiadau ar waith i olrhain datblygiad. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod arferion yn adlewyrchu'r polisïau a'r gweithdrefnau, er enghraifft newid cewynnau, paratoi bwyd a defnyddio cyfarpar yn ddiogel. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/10/2024